Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Maes Teg**

**Dinbych**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/02/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Maes Teg

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | John Roberts |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Ebrill 2019 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn byw bywydau bodlon gan eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau a bod yr hyn sy'n bwysig iddynt yn cael ei barchu. Mae'r bobl yn treulio amser fel grŵp, ac maent hefyd yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd i wneud pethau ar eu pen eu hunain. Maent yn cadw'n actif ac yn iach ac yn mwynhau deiet cytbwys.

Mae'r bobl yn rhannu eu safbwyntiau yn hyderus gan eu bod yn cael eu cynnwys yn gyson wrth drafod materion pwysig. Mae tîm sefydlog a chyson o staff gofal yn adnabod yr unigolion hynny sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda. Mae'r amgylchedd cartrefol yn groesawgar ac yn galluogi'r bobl i ymlacio.

Caiff gwybodaeth ei chasglu am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth; fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn cofnodi sut y bydd y cymorth a ddarperir yn helpu'r bobl i wneud cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol.

Mae darparwr y gwasanaeth yn chwarae rhan bwysig wrth redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac mae ganddo weledigaeth gryf o ran pa fath o brofiad yr hoffai i'r bobl ei gael wrth ddarparu gofal iddynt. Mae'r rheolwr penodedig yn brofiadol ac yn rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith.

## Llesiant

Caiff y bobl gymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau, sydd o fudd i'w llesiant. Maent yn gyfarwydd â'r unigolion hynny y maent yn byw gyda nhw; mae'r diwrnodau yn hamddenol a gellir eu haddasu gan ddibynnu ar anghenion y bobl ar y pryd. Gall y bobl ddewis p'un a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd ai peidio ac mae ganddynt yr hyder i gyfrannu ac i wneud penderfyniadau cadarnhaol sy'n effeithio ar eu bywyd o ddydd i ddydd.

Caiff iechyd corfforol ac iechyd meddwl y bobl eu hybu, maent yn gwneud pethau actif yn gyson ac maent yn iach. Maent yn mwynhau cyfleoedd i fynd allan gyda'i gilydd fel grŵp yn rheolaidd. Byddant yn aml yn ymweld â mannau lleol o ddiddordeb ac yn bwyta allan. Rhoddir cymorth ychwanegol i'r unigolion hynny y mae angen help arnynt i gyflawni tasgau cyffredin, a chaiff annibyniaeth ei hybu cymaint â phosibl. Os yw'n bosibl, caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i fynychu lleoliadau gwaith.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm cyson o staff gofal, ac mae bron pob aelod o'r staff wedi cael ei gyflogi gan y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Roedd hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn yn y cartref. Roedd y bobl yn cael cyfarfodydd misol i drafod materion pwysig, ac roedd sesiynau wythnosol yn cael eu cynnal gyda'u gweithwyr allweddol er mwyn cynnig y cyfle iddynt gael trafodaethau unigol. Mae'r bobl yn mwynhau cael eu prydau gyda'r nos gyda'i gilydd wrth y bwrdd bwyta yn y gegin. Mae amrywiaeth eang o fwyd ar gael, ac roedd tystiolaeth bod y bobl yn cael bwyd a oedd yn bodloni deietau arbennig pan oedd angen. Mae'r bobl yn ddiogel gan fod y staff gofal wedi mynychu hyfforddiant diogelu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth, y polisïau a'r gweithdrefnau cyfredol.

Mae'r staff gofal yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r bobl. Caiff y bobl eu trin â pharch a defnyddir y dull cyfathrebu unigol priodol i siarad â nhw. Mae amgylchedd y cartref yn hamddenol ac yn gefnogol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi ei gilydd a'u bod yn cyd-dynnu â'r staff. Gwelsom enghreifftiau o sgwrsio hwyliog a phleserus ac o ryngweithio cyfeillgar. Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael eu parchu ac o ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg, ond ar hyn o bryd nid Cymraeg yw mamiaith y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Gofal a Chymorth

Mae'r gwasanaeth yn dilyn ei weithdrefn dderbyn fel y'i hamlinellir yn ei ddatganiad o ddiben. Caiff gwybodaeth ei chasglu, a gwneir penderfyniad gwybodus o ran sut y bydd y gwasanaeth yn diwallu'r anghenion a nodwyd. Caiff cydnawsedd unigolion â'r unigolion hynny sydd eisoes yn byw yn y gwasanaeth, a sut y caiff anghenion sy'n cystadlu eu diwallu'n briodol, eu hystyried. Caiff y trefniadau ar gyfer derbyn unigolion newydd eu cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau y byddant yn trosglwyddo'n hwylus i'r gwasanaeth.

Caiff anghenion unigolion eu nodi yn y cynllun personol. Ar y cyfan, mae'r cynlluniau yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn diwallu'r anghenion o ddydd i ddydd, ond nid yw'r ddogfen yn nodi'r cymorth sydd ei angen er mwyn helpu'r bobl i wneud cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau llesiant cadarnhaol. Yn ogystal, nid yw'r cynlluniau personol yn cael eu hadolygu'n gyson fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Cydnabyddir bod y rheolwr cofrestredig sydd newydd ei benodi wrthi'n adolygu ac yn diweddaru'r ddogfennaeth a ddefnyddir, ond nid oedd y ddogfennaeth ddiwygiedig ar waith yn y cartref eto. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Nodwyd hefyd nad oedd asesiadau'r darparwr yn cael eu cwblhau. Diben asesiadau o'r fath yw ymhelaethu ar y wybodaeth a gaiff ei chasglu wrth benderfynu darparu gwasanaeth. Mae'r asesiad hwn yn llywio'r cynllun personol. Mae'n adnodd sy'n cynnig cyfle i fyfyrio ar arferion da ac a all nodi hefyd pan na fydd cynllun personol yn helpu'r unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau personol. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r staff gofal yn brofiadol ac yn adnabod y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn dda. Mae hyn yn eu helpu i ddarparu gofal wedi'i deilwra sy'n gwneud y bobl yn hapus. Mae ganddynt wybodaeth fanwl am ddiddordebau personol a hobïau, oherwydd y cydberthnasau cyfarwydd ac agos sydd wedi'u meithrin. Mae hyn yn creu awyrgylch hamddenol a gofalgar, fel cartref teuluol.

Mae darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau'r nifer gofynnol o staff gofal ac adnoddau i ddarparu gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae'r trefniadau staffio yn darparu cysondeb ac wedi bod yr un fath ers cryn dipyn o amser. Pan fydd angen staff ychwanegol, defnyddir yr un aelodau o staff, sy'n gyfarwydd â'r gwasanaeth a'r bobl sy'n byw yn y cartref. Ceir cyfleoedd rheolaidd i gasglu safbwyntiau'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, boed drwy ddulliau ffurfiol neu drwy drafodaethau o ddydd i ddydd. Mae gwasanaeth eirioli ar gael hefyd.

## Yr Amgylchedd

Mae Maes Teg yn darparu amgylchedd cysurus a chartrefol i'r bobl. Mae trefniadau ar waith i wella'r cartref yn ystod y misoedd nesaf drwy ei baentio a'i addurno. Mae'r lleoliad yn golygu ei bod hi'n hawdd cyrraedd amwynderau lleol yn Ninbych a cheir cysylltiadau trafnidiaeth i drefi mwy cyfagos.

Darperir dodrefn a chyfarpar er mwyn helpu'r gwasanaeth i gyflawni ei nodau a'i amcanion, a lle bo angen, ymgynghorir â gwasanaethau arbenigol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyfarpar gofynnol ar gael. Lle yr aseswyd bod hynny'n addas, mae gan y bobl eu hallwedd eu hunain i'r cartref, a thrwy hynny, gellir hyrwyddo eu hannibyniaeth. Maent hefyd yn cael cymorth i ddefnyddio'r cyfleusterau golchi dillad ac yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.

Mae mannau cymunedol ar gael i ddiwallu anghenion y bobl ac maent yn hawdd eu cyrraedd a'u defnyddio'n annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys ystafell i'r bobl gyfarfod yn breifat ag ymwelwyr a theulu, cymryd rhan mewn gweithgareddau a chyfleoedd hamdden. Mae'r ardd gefn yn cael ei rhannu â'r eiddo drws nesaf ac fe'i defnyddir i gymdeithasu yn ystod y misoedd cynhesach. Gall y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth ddewis sut maent eisiau addurno a dodrefnu eu hardaloedd byw unigol.

Mae gan y cartref drefniadau iechyd a diogelwch priodol, sy'n sicrhau bod y bobl yn cadw'n ddiogel.  Mae systemau ar waith i fonitro unrhyw waith cynnal a chadw gofynnol, a chaiff gwaith atgyweirio ei gwblhau'n brydlon. Mae cyllideb benodol ar gael i reolwr cofrestredig y cartref addurno a chynnal a chadw'r cartref. Cyn cwblhau unrhyw waith, ymgynghorir â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a chaiff eu safbwyntiau eu hystyried. Mae sicrhau bod y cartref yn adlewyrchu chwaethau personol ac anghenion yn holl bwysig.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli gwastraff peryglus yn bodloni gofynion deddfwriaeth a chanllawiau Iechyd a Diogelwch perthnasol. Caiff iechyd a diogelwch y bobl eu cynnal drwy raglen gadarn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ers yr arolygiad diwethaf, mae darparwr y gwasanaeth wedi penodi rheolwr cofrestredig sydd â'r profiad angenrheidiol i arwain y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn goruchwylio dau gartref sydd y drws nesaf i'w gilydd ac mae dirprwy reolwr yn ei chefnogi. Y dirprwy reolwr sy'n gyfrifol am weithredu Maes Teg o ddydd i ddydd. Mae trefniadau clir ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth, ac mae llinellau cyfathrebu clir rhwng yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr. Mae cymorth gweinyddol cryf ar gael hefyd.

Caiff gofal ei ddarparu mewn ffordd gyson a dibynadwy, a chaiff y gwasanaeth ei redeg gan deulu. Mae pob aelod o'r staff yn rhannu'r gwerthoedd craidd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn llunio adroddiad yn unol â'r rheoliadau, ac mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella, a meysydd lle mae'r gwasanaeth wedi perfformio'n dda. Mae aelodau o'r teulu hefyd yn helpu'r unigolyn hwn ac yn chwarae rhan allweddol yn y broses o reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Yn ystod yr arolygiad, cyflwynwyd datganiad o ddiben diwygiedig, a oedd yn cynnig disgrifiad cywir o'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu.

Mae'r rheolwr cofrestredig a benodwyd yn ddiweddar wedi cynllunio llawer o newidiadau a gwelliannau, ac fe'u trafodwyd â'r unigolyn cyfrifol sy'n rhoi cymorth o ran rhoi'r newidiadau hyn ar waith. Nid yw'r newidiadau a gynlluniwyd wedi digwydd mor gyflym ag y gobeithiwyd yn wreiddiol, ac felly mae meysydd y mae angen eu gwella o hyd. Roedd gwybodaeth ar goll o ffeiliau'r staff gofal, felly nid oedd modd cadarnhau a gafodd gwiriadau recriwtio diogel eu cwblhau. Mae'r staff gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd, ac maent yn adnabod y bobl sy'n cael gofal ganddynt yn dda iawn. Maent yn gyfarwydd â'u rolau a'u cyfrifoldebau, ond nid ydynt wedi cael sesiynau goruchwylio unigol cyson a rheolaidd, ac ni chwblhawyd arfarniadau blynyddol. Ni welsom dystiolaeth bod yr achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau yn peri risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, felly rydym yn tynnu sylw atynt fel meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i unioni'r mater hwn a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| | Rheoliad 67 (1) – Nid oes gan y cartref reolwr cofrestredig a chymwysedig. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn bodloni gofynion y rheoliadau yn llawn. | Newydd |
| 16 | Nid oedd y cynlluniau personol yn cael eu hadolygu o leiaf bob 3 mis yn unol â'r rheoliadau, sy'n golygu nad oes gan y gwasanaeth broses ffurfiol i asesu a yw'r cymorth a ddarperir yn diwallu anghenion y bobl. | Newydd |
| 18 | Nid yw'r gwasanaeth yn cwblhau asesiadau'r darparwr. | Newydd |
| 35 | Nid yw'r gwiriadau addasrwydd gofynnol wedi cael eu cwblhau'n llawn. Roedd y ddau gyflogai wedi cael eu cyflogi gan y gwasanaeth yn y gorffennol ac yn dychwelyd i'r gwasanaeth. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio unigol â'u rheolwyr llinell ac nid yw'r staff gofal yn cael arfarniad blynyddol ychwaith er mwyn iddynt gael adborth ar eu perfformiad. | Newydd |
| | Rheoliad 15 (1) – Nid oedd Cynlluniau Personol ar waith. | Cyflawnwyd |
| | Rheoliad 35, Atodlen 1 – Nid oedd ffeiliau staff ar gael. | Cyflawnwyd |
| | Rheoliad 34 (1), (a), (b), (c), (d) – Nifer annigonol o staff yn gofalu am y bobl. | Cyflawnwyd |
| | Rheoliad 36 (c) – Dim cofnodion goruchwylio ar gyfer y staff. | Cyflawnwyd |
| | Rheoliad 73 (1), (2), (3) – Nid oedd ymweliadau â'r cartref yn cael eu cofnodi gan yr unigolyn cyfrifol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/04/2023